# Cwestiynau Ysgrifenedig y Cynulliad i'w hateb ar 14eg Mawrth 2006

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

## *Gofyn i'r Gweinidog dros y Trefnydd*

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch y cyllid a ddarparwyd gan y Cynulliad i AWEMA ym mhob blwyddyn er 1999. (WAQ46181)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon*

**Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr):** Beth y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i gefnogi llwyfannu'r sioe "Jerry Springer" yng Nghymru. (WAQ46195)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth*

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o arian a roddwyd i brosiectau twristiaeth yng Nghymoedd y De ac a wnaiff y Gweinidog roi manylion y prosiectau unigol. (WAQ46182)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Sut y mae Llywodraeth y Cynulliad yn bwriadu cyllido'r Partneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol yn uniongyrchol, ac ystyried eu bod yn gyfyngedig trwy warant. (WAQ46183)

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y diffygion cyfredol yng nghyllid Cronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n effeithio ar Gymdeithas Addysg y Gweithwyr, De Cymru. (WAQ46185)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pryd yn union cynhelir yr adolygiad o Bartneriaethau Twristiaeth Rhanbarthol yn 2006/07. (WAQ46194)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes*

**Laura Anne Jones (Dwyrain De Cymru):** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i roi sylw i'r diffygion mewn cyllid sy'n effeithio ar Gymdeithas Addysg y Gweithwyr, De Cymru. (WAQ46186)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus*

**Nicholas Bourne (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am roi iawn i awdurdodau lleol sydd â threfi Prifysgol am golli incwm y dreth gyngor drwy eithrio myfyrwyr. (WAQ46184)

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r holl ohebiaeth a anfonodd at awdurdodau lleol ynghylch darparu Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant ar gyfer plant sy'n derbyn gofal er 20 Medi 2005. (WAQ46187)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol*

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r holl ohebiaeth a anfonodd at awdurdodau lleol ynghylch darparu Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant ar gyfer plant sy'n derbyn gofal er 20 Medi 2005. (WAQ46188)

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatgan sawl awdurdod lleol sy'n darparu Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant ar gyfer yr holl blant sy'n derbyn eu gofal. (WAQ46189)

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** Faint o blant sy'n derbyn gofal sydd wedi derbyn Cronfa Ymddiriedolaeth Plant gan awdurdodau lleol er 20fed Medi 2005 a faint o blant sy'n derbyn gofal a dderbyniodd gronfeydd ymddiriedolaeth plant yn (a) 2004/5 a (b) 2005/6. (WAQ46190)

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog restru canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi derbyn Cronfa Ymddiriedolaeth Plant gan ardal awdurdod lleol. (WAQ46191)

**Leanne Wood (Canol De Cymru):** Faint o arian ychwanegol a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i awdurdodau lleol er Medi 2005, er mwyn galluogi awdurdodau lleol i ddarparu Cronfeydd Ymddiriedolaeth Plant ar gyfer yr holl blant sy'n derbyn eu gofal. (WAQ46192)

**Lisa Francis (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Pa ganran o boblogaeth oed gweithio Cymru a gyflogir gan y GIG. (WAQ46193)

## *Gofyn i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio*

**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog fanylu ynghylch y cyllid a ddarparwyd gan y Cynulliad i AWEMA ym mhob blwyddyn er 1999. (WAQ46181)